Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council



# CYNLLUN AILALINIO CERBYTFFORDD CYMER

## Llyfryn ymgynghori



# CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn paratoi i gyflwyno cais cynllunio llawn ar gyfer Cynllun arfaethedig Ailalinio Cerbytffordd Cymer a’r gwaith cysylltiedig.

Cymerwch eich amser i ystyried yr wybodaeth sydd ar gael.

## Gwybodaeth gefndir

Mae’r rhwydwaith ffyrdd yn Nyffryn Afan yn rhan annatod o gynnal cysylltedd rhwng pentrefi a chymunedau lleol Cymer, Croeserw, Abercregan a Glyncorrwg, gan alluogi pobl i fynd at gyfleusterau, gwasanaethau hanfodol a chefnogi’r economi leol.

Mae’r rhwydwaith hwn yn cynnwys y ddwy hen bont reilffordd ym mhen dwyreiniol Heol Maesteg. Strwythur sy’n methu yr ydym yn bwriadu ei ddymchwel fel rhan o’n cynigion yw un ohonynt.

Er mwyn ymdrin â phryderon diogelwch a’r angen i wella symud ym mhentref Cymer, rydym yn cynnig sawl newid yng Nghynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer.



## Lleoliad Cynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer

Mae Cynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer wedi'i leoli ar ffin weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, ym mhentref Cymer yn Nyffryn Afan. Mae wedi’i leoli tua 437m i'r gogledd-orllewin o Croeserw, 2.4km i'r gorllewin o Flaengwynfi, a 1.86km i'r dwyrain o Ddyffryn Rhondda.

Mae Cynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer wedi’i ganoli ar Heol yr Ysgol, Heol yr Orsaf a Heol Maesteg, ynghyd â’r tir lle bydd yr ailaliniad arfaethedig yn cael ei adeiladu.

Bwriedir ymestyn Ffordd Fynediad newydd i’r Orsaf Dân tua’r gogledd o’r ffordd drwodd newydd, gan gysylltu â Railway Crescent. Mae’r cynllun hefyd yn cynnwys Pont Cymer a Stryd Afan i’r gogledd.

Cyfanswm arwynebedd y cynllun yw tua 3.1 hectar. Mae’r cynllun arfaethedig i’w weld ar dudalen 5.


Mae’r tir yn eiddo i Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn bennaf ac yn cael ei reoli ganddo.



# CYNLLUN ARFAETHEDIG

Mae Cynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer yn cynnwys y newid-iadau canlynol;

- Ailaliniad newydd sy'n cysylltu Heol yr Ysgol a Heol Maesteg
- Ffordd fynediad newydd i'r Orsaf Dân, sy'n ymestyn tua'r gogledd o'r ffordd drwodd newydd ac yn cysylltu â Railway Crescent
- Gwelliannau i'r priffyrdd ar hyd rhannau o Heol yr Orsaf, Heol Maesteg, Lloyds Terrace, Stryd Afan a Railway Crescent gan gynnwys lledu ffyrdd, ailosod wyneb, gwella gwelededd ar gyffyrdd a gwella croesfannau i gerddwyr
- Gweithredu croesfan a reolir gan signalau traffig
- Dargyfeirio ymgymerwyr statudol posibl gan gynnwys dŵr, carthffosydd, trydan, telathrebu a nwy
- Gwelliant arfaethedig i Lyfrgell Gymunedol Cymer a man parcio newydd i'r de o'r Ystafelloedd Lluniaeth fel cyfnewid uniongyrchol yn lle mannau parcio Parc Coedwig Afan ger yr hen bontydd rheilffordd
- Y bwriad arfaethedig i ddymchwel ac adleoli Canolfan Iechyd Cymer. Bydd lleoliad newydd Canolfan Iechyd Cymer yn destun ymgynghoriad ar wahân gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Troedffordd/llwybr beicio 3m o led arfaethedig a rennir
- Cynnal a chadw Pont Cymer i atal gwaethygu cyrydiad y dur atgyfnerthu ac adnewyddu'r concrit sydd wedi syrthio o'i le



## Pa fanteision bydd gan Gynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer i'r gymuned?

Wrth gyflawni Cynllun Aailalinio'r Cerbytffordd Cymer, ein hamcanion yw:

- Lleihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiadau traffig trwy lwybrau gwell
- Lleihau'r angen i gerbydau deithio dros y pontydd â chyfyngiad pwysau arnynt, drwy ddarparu llwybrau eraill, heb effeithio ar drafnidiaeth gyhoeddus
- Cynnal mynediad addas i gerbydau a cherddwyr i bentrefi Cymer, Glyncorrwg ac Abercregan a chyfleusterau a gwasanaethau allweddol eraill
- Darparu llwybrau traffig eraill addas i gymryd lle'r rhai sy'n defnyddio Pont Cymer, y bwriedir ei gadw at ddefnydd cerddwyr a beicwyr yn unig

# Y BROSES GYNLLUNIO

Mae Cynllun Aailalinio Cerbytffordd Cymer yn cael ei gategoreiddio fel datblygiad mawr. Mae datblygiadau mawr yn gofyn am gais cynllunio llawn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Mae gofyniad i gynnal cyfnod Ymgynghori Cyn Gwneud Cais statudol (PAC) lle bydd fersiwn ddrafft y dogfennau cynllunio yn cael ei chyflwyno i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ar gyfer sylwadau.

Rydym yn bwriadu cynnal yr Ymgynghoriad Cyn Gwneud Cais statudol yn ddiweddarach eleni.

Bydd Adroddiad Ymgynghori Cyn Gwneud Cais yn cael ei baratoi, a fydd yn rhoi tystiolaeth o ran sut mae gofynion yr Ymgynghoriad Cyn Gwneud Cais wedi'u bodloni. Bydd yr Adroddiad Ymgynghoriad Cyn Gwneud Cais hefyd yn cynnwys crynodeb o'r holl faterion a gafodd eu codi mewn ymateb i'r hysbysiad o'r cais arfaethedig, cadarnhad a yw'r materion hyn wedi'u datrys a sut. Bydd Adroddiad Ymgynghoriad Cyn Gwneud Cais yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio.



# Y CAMAU NESAF

**01**

### Adolygu Adborth

Byddwn yn dadansoddi'r holl ymatebion yr ydym wedi'u cael yn ystod yr ymgynghoriad hwn.

**02**

### Cwblhau'r Dyluniad

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn llywio dyluniad terfynol y cynllun.

**03**

### Cyfnod ymgynghori cyn gwneud cais

Bydd fersiynau drafft o'r dogfennau cynllunio yn cael eu cyflwyno, a bydd gennych y cyfle i rannu'ch sylwadau. Disgwylir i hyn ddigwydd yn ddiweddarach eleni.

**04**

### Cyflwyno Cais Cynllunio

Rydym yn bwriadu cyflwyno'r cais yng Ngaeaf 2026.

**05**

### Cyfnod Ymgynghori'r Cais Cynllunio


Cyfle arall i chi wneud sylwadau ar y cais a gyflwynwyd yn uniongyrchol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

**06**

### Adeiladu

Os yw'r cais yn llwyddiannus, disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yn 2027.

# RHOI EICH ADBORTH



### Rhoi eich adborth

Mae'ch adborth yn bwysig i ni a bydd yn helpu i fireinio'n cynigion. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal o 9.00am ddydd Mercher **13 Mai 2026 i 11.59pm ddydd Mercher 24 Mehefin 2026**.

Gallwch gyflwyno'ch adborth drwy'r holiadur ar ein gwefan yn: www.npt.gov.uk/council/have-your-say/consultations/. Gellir fynd at yr arolwg ar-lein hefyd trwy sganio'r cod QR hwn.

Mae'r wefan yn cynnwys y llyfryn gwybodaeth hwn yn Gymraeg a Saesneg a delweddau eraill o Gynllun Ailalinio Cerbytffordd Cymer.

Fel arall, gallwch anfon eich adborth ar e-bost i **cymmercr@wsp.com**.

Bydd unrhyw ddata personol sy'n dod i law fel rhan o'r ymgynghoriad yn cael ei storio a'i ddiogelu yn unol â gofynion diogelu data perthnasol fel y nodir yn y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Ni chaiff unrhyw fanylion personol eu defnyddio na'u cyhoeddi mewn unrhyw ddeunyddiau, er y byddwn yn dadansoddi'r adborth yr ydym yn ei gael ac yn adrodd mewn Adroddiad Adborth Ymgynghori.

## Digwyddiadau cyhoeddus

Rydym yn cynnal tri digwyddiad galw heibio cyhoeddus i helpu pobl i ddeall ein cynigion a gwneud sylwadau arnynt. Yn ein digwyddiadau galw heibio, gallwch weld ein cynigion a siarad â'n tîm a fydd wrth law i ateb unrhyw ymholiadau y gallai fod gennych.

| Lleoliad y Digwyddiad | Dyddiad ac Amser |
|---|---|
| **Eglwys Fethodistaidd Cymer**, Heol Brytwn, Cymer, Port Talbot, SA13 3EN | **Dydd Llun 1 Mehefin** (10:00 am i 17:00 pm) |
| **Canolfan Menter Gymunedol Croeserw**, Heol Bryn Siriol, Cymer, Port Talbot, SA13 3PL | **Dydd Iau 4 Mehefin** (13:00 pm i 20:00 pm) |
| **Yr Ystafelloedd Lluniaeth**, Yr Hen Orsaf, Cymer, Port Talbot SA13 3HY | **Dydd Sadwrn 6 Mehefin** ((10:00 am i 13:00 pm) |

# SUT ALLWCH CHI GYSYLLTU Â NI

Os hoffech fwy o wybodaeth am ein cynigion, neu os hoffech fformatau gwahanol ar gyfer dogfennau (e.e. mewn Braille neu ieithoedd eraill), gallwch gysylltu â ni'n uniongyrchol.

cymmercr@wsp.com